

CWRICWLWM CYFNOD ALLWEDDOL 4 - BLWYDDYN 10 ac 11 :

Yn ystod **Cyfnod Allweddol 4** (Blynyddoedd 10 ac 11) mae cyfle i ddilyn y rhan fwyaf o'r pynciau drwy'r Gymraeg neu drwy'r Saesneg ond mae rhai pynciau yn Gymraeg yn unig a phynciau eraill yn Saesneg yn unig. Er mwyn parhau'r datblygiad ieithyddol, disgwylir i bob disgybl sy'n dilyn y cwrs Cymraeg Iaith Gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 wneud o leiaf 30% o'i gwrs drwy'r Gymraeg a 30% drwy'r Saesneg, h.y. Saesneg + dau bwnc drwy gyfrwng y Saesneg, a'r Gymraeg + dau bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ddiwedd Blwyddyn 9 rhoddir cyfle i ddisgyblion, yn ôl eu gallu a'u diddordeb, i ddewis cyrsiau addas a chyfuniad o bynciau sy'n arwain at Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd [arholiadau TGAU], Tystysgrif City & Guilds, Tystysgrif BTEC a'r Dystysgrif Lefel Mynediad [TLM]. Rhennir y meysydd profiad fel hyn:

Craidd Gorfodol	Gwersi
ABaCh	3 (+cymhwyster y Fagloriaeth Gymreig i bob disgybl yng CA4)
Cymraeg	4
Saesneg	4
Mathemateg (D)	4
Gwyddoniaeth Ddeuol (D)	6
Gwyddoniaeth BTEC	3 a (3 gwrs arall ar gyfer y grwpiau 'Galwedigaethol')
Thechnoleg Gwybodaeth	3

Pynciau Dewisol:**4 llwybr**

<u>LLWYBR 1</u>	<u>LLWYBR 2</u>	<u>LLWYBR 3</u>	<u>LLWYBR 4</u>
<u>Colofn 1</u>	<u>Galwedigaethol / Coleg</u>	<u>Galwedigaethol / Ysgolion</u>	<u>Galwedigaethol Coleg Menai + YUB</u>
Cerdd BTEC a/neu TGAU Hanes [C] Daeryddiaeth Celf *Busnes L2-YUB Ffrangeg [S]	Lefel 1 – Coleg Menai ¶Adeiladwaith ¶Croesawiaeth ar Arlwyo ¶Peirianeg Fecanyddol ¶Peirianeg Fodurol Sgiliau Byw'n Annibynnol ¶Gwasanaethau Salon L1-YUB	Gofal ac Iechyd L2 - YUB *Celf L2 - YUB *Cyfryngau L2 - YUC *Adeiladwaith L2 - YSTJ *Tystysgrif Chwaraeon L2 - YDH *Technoleg Cerbydau L2 – CM *Gwas. Cyhoeddus L2-CM	*Peirianeg Galwedigaethol [L2] Peirianeg
<u>Colofn 2</u>	<u>Colofn 2</u>	<u>Colofn 2</u>	<u>Coleg Menai +</u>
Addysg Gorfforol Celf DaTh: Dylunio Cynnyrch DaTh: Deunyddiau Gwrth Astudiaethau Crefyddol [C] Drama a / neu *Celfyddydau Perfformio	Addysg Gorfforol Celf DaTh: Dylunio Cynnyrch DaTh: Deunyddiau Gwrthiannol Astudiaethau Crefyddol [C] Drama a / neu *Celfyddydau Perfformio	Addysg Gorfforol Celf DaTh: Dylunio Cynnyrch DaTh: Deunyddiau Gwrthiannol Astudiaethau Crefyddol [C] Drama a / neu *Celfyddydau Perfformio: L2 - YUB	*Peirianeg Galwedigaethol [L2] Peirianeg

Dysgir y pynciau yn ddwyieithog oni nodir yn wahanol

C - ar gael yn y Gymraeg yn unig

S - ar gael yn y Saesneg yn unig

¶ - pwnc City & Guilds

* - pwnc BTEC

Ceisir sicrhau fod cwrs pob plentyn yn gytbwys, yn eang ac yn berthnasol. Gall pob disgybl gael blas ar o leiaf ddau o'r tri maes profiad [Celfyddydau Mynegiannol, Dyniaethau, Technoleg] drwy ei ddewis o bynciau. Bydd y disgyblion yn cael eu cynghori i ddilyn y cyfuniad o bynciau sy'n fwyaf addas ar eu cyfer - pynciau TGAU, BTEC City & Guilds, TLM neu gyfuniad o'r ddau - darpariaeth gytbwys ar gyfer disgyblion o bob gallu. Mae cyfle i un grŵp o ddisgyblion ddilyn Cwrs Galwedigaethol yn lle dau o'r dewis bynciau – cyfle i gael profiad gwaith a chwrs

galwedigaethol heb golli gwersi'r pynciau craidd. Cydnabyddir pwysigrwydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i fyd yr unfed ganrif ar hugain a rhoir cyfle i bob plentyn ennill cymhwyster yn y pwnc.

Rhoddir cyfle i bob plentyn, gyda chymorth yr athrawon, ddewis cyfrwng y pynciau mae wedi dewis eu hastudio ar gyfer yr arholiadau allanol. Mae cyfle i ddilyn y rhan fwyaf o'r pynciau drwy'r Gymraeg neu drwy'r Saesneg, ond mae rhai yn Gymraeg yn unig ac eraill yn Saesneg yn unig. Er mwyn parhau'r datblygiad ieithyddol disgwylir i bob disgybl sy'n gwneud Cymraeg Iaith Gyntaf wneud o leiaf 2 bwnc drwy'r Gymraeg, a 2 drwy'r Saesneg - h.y. Saesneg a dau bwnc trwy gyfrwng y Saesneg ynghyd â Chymraeg a dau bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir llyfryn o wybodaeth i egluro'r cyrsiau a'r cyfuniadau sydd ar gael yn ystod Blwyddyn 9.

ABaCh

Mae addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh) yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob disgybl cofrestredig 7 i 16 oed. Ar gyfer dysgwyr 14-19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae ABaCh yn paratoi'r dysgwyr i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau, archwilio agweddau a gwerthoedd personol, a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol yn gysylltiedig â'r themâu canlynol:

- Dinasyddiaeth weithgar / cyfraniad cymunedol
- Iechyd a lles emosiynol
- Datblygiad moesol ac ysbrydol
- Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes
- Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 cyflwynir yr uchod drwy wersi Dinasyddiaeth Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Iechyd; Addysg Gorfforol ac Hamdden; Addysg Grefyddol ac Addysg Gyrfaoedd a'r byd gwaith.

Byddant yn ennill cymwysterau unigol y sgilau a chymhwyster y Fagloriaeth ar safon Sylfaenol neu Ganolradd.